

# Gwibdaith y Gymdeithas i Fro Caradog

B u'r daith hon yn hynod o lwyddiannus, a mawr oedd canmoliaeth yr aelodau iddi. Daliwyd y bws ym Mettws y Coed. Ein tywsysyd a threfnydd y daith oedd J. Elwyn Hughes. Fel y gwyr pawb, mae ef yn arbenigwr ar waith Caradog Prichard, ac yn awdur sawl llyfr arno.

Roedd y bws yn llawn a'r tywydd yn deg. Wedi pasio Capel Curig, gallem weld Tryfan yn y pellter ar y chwith, gyda'r ddau faen ar ei gopa. Bedyddiwyd hwy, yn ôl y tywsysyd, gydag amrywiaeth o enwau, megis Siôn a Siân, Adda ac Efa. Y Bugail a'i wraig, a Jac a Jill.

Am darddiad yr enw Tryfan, esboniodd Syr Ifor Williams mai gair dwy-elfen sydd i'r gair sef *try(elfen gryfaol megis iawn)* a *ban* (sy'n golygu *pig* neu *bwynt* neu *fel* ansoddaid, *uchel*) - mynydd sy'n codi'n uchel iawn, neu un sydd â blaen main iddo. Disgrifiad perfafith o'r mynydd. Bu John Hunt ac Edmund Hilary yn ymarfer arno cyn iddynt gonicro Everest yn 1953.

Yn Nant y Benglog, dangosodd Elwyn Hughes dý bach ar yr ochr dde i'r ffordd, adeilad mae pob un ohonom wedi mynd heibio iddo ar frys, lawer tro. Nid felly T. H. Parry Williams. Yn ei gerdd, o dan y teitl 'Nant y Benglog,' mae'n datgan

*Pwt o gapel gan Sentars y fro  
Ac ynddo set-fawr ar ryw hanner tro.*

Capel oedd rhan o'r adeilad ar un adeg, gyda'r tŷ capel o dan yr unto, a adeiladwyd yn 1853 gan dair gwraig grefyddol, a rhai o ddynion y ffermydd cyfagos. Adeg dathlu canmlwyddiant Capel Nant y Benglog yn 1953, bu'n rhaid llogi pabell fawr a'i gosod wrth ymyl y capel i roi lle i'r tyrsaoedd a ddisgwylid yno, a dywedir i oddeutu wyt hant neu fwy o bobl fod yn gwrando ar y Parch Elfed Lewis yn traddodi un o'i bregethau olaf.

Mynd heibio Llyn Ogwen, sydd, gyda llaw, y llyn basaf yng Nghymru, rhyw ddeg troedfedd ar ei ddyfnaf, cyrraedd pen draw y llyn, ger yr Hostel, a throi ar y chwith oddi ar y briffordd ar hyd ffordd gul. Dyma ffordd a



Rhai o wibdeithwyr y Gymdeithas

adeiladwyd tua 1792 gan yr Arglwydd Penrhyn er mwyn cysylltu ei blasty yn Llandegai â'r gwesty moethus, y Royal Hotel, a adeiladodd yng Nghapel Curig (Plas y Brenin heddiw). Fe hwylusodd gludiant ei lechi o'r chwarel ym Methesda).

Wedi dychwelyd at yr Hostel unwaith eto, tro ar yr A5. Yr A5, wrth gwrs a adeiladwyd gan Thomas Telford ddechrau'r ddeunawfed ganrif i gysylltu Llundain â Chaergybi.

Gallem weld yr Afon Ogwen yn y dyffryn islaw. Mae dwy elfen yn y gair *Ogwen - og* sy'n golygu *cylwm* neu *bywiog* (a'i groes ystyr, wrth gwrs yw *di-og*), a *banw* (hen air am *borchell - mochyn bach*). Yr enw gwreiddiol oedd *Ogfam* ond gyda threigl amser ar arfer, trodd yn *Ogfan* ac yna'n *Ogwan*.

Ffurdd â ni wedyn, ar hyd-ddi drwy Ddyffryn Ogwen, ac heibio Ty'n y maes. Bellach does ond Motel, ffermdy, dyrnaid o dai, a dau gapel wedi cau, i ddynodi'r fangre a ysbrydolodd gân yr afon ym mhryddest fud-dugol Caradog Prichard, "Y Briodas", yn Eisteddfod Genedlaethol Caergybi yn 1927.

Cyrraedd cyrion Bethesda ac ymweld â Chwarel y Penrhyn, a chael cyfle i weld yr union fan lle y lladdwyd tad Caradog Prichard. Yna, dilyn y ffordd drwy Sling, Tregarth, heibio i Bendinas, y bwthyn bychan ar y chwith. Dyma gartref Hugh Derfel Hughes, ei fab Hugh Brython, a'i wyr Syr Ifor Williams. O Landderfel y daeth Hugh Hughes i'r ardal, ganol y ddeunawfed ganrif, a chael gwaith yn Chwarel y Penrhyn. Atgoffwyd ni o'i emyn 'Y Cyfamod Disegl' a'i gyfraniad enfawr i hanes yr ardal yn ei *Hynafiaethau Llandegai a Llanllechid* (1866).

Cyrraedd Rachub, a chael ar ddeall mai o'r Lladin *occupo* y daw'r gair, a olygai 'gymryd mediant o rywbeith'. Wedyn, dilyn y ffordd i ymweld â beddau enwogion yn y ddwy fynwent. Mynwent Coetmor yw'r gyntaf ar y dde, lle gorwedd y llenor R. Lloyd Jones, awdur *Capten, Dirgelwch yr Ogo* a *Met y Mona*; y bardd William Griffith Hen-barc; y llenor, a chyd-awdur Llyfr Mawr y Plant, J. O. Williams, ac R. Williams Parry, gyda'i garreg fedd hardd, a cherfiad o'r Lôn goed arni. Ym Mynwent Eglwys Coetmor, sydd am y clawdd â Mynwent Coetmor, mae dau o'n cewri wedi'u claddu yma, sef Caradog Prichard, y

bardd, y llenor a'r newyddiadurwr a fu farw yn 1980, a Syr Idris Foster, yr ysgolhaig Celtaidd a fu farw yn 1984.

Gadael y fynwent a theithio heibio Fferm Coetmor; hanner canllath o'r ffermdy, ar yr ochr chwith, cyfeiriwyd at Rhif 3, Stad Coetmor, cartref R. W. Williams Parry. Tu cefn i'r tai hyn arferai Llys Coetmor sefyll, cartref W. J. Parry a ymladdodd achos y Chwarelwyr. Cafwyd cyfle i fynd heibio Hen Barc; Rhif 7 oedd cartref William Griffith, y bardd a anfarwolwyd gyda'i gân 'Defaid William Morgan.

Teithio drwy Garneddi, lle bu William Parry (Llechidion) yn byw. Ef a ysgrifennodd *Llyfr Hanes ac Enwogion Llanllechid a Llandegai* (1868). Wrth fynd drwy'r Gerlan, cyfeiriwyd at siop Glasgow House lle bu'r Arglwydd Goronwy Roberts yn byw yn ystod ei blentyndod. Dychwelyd i'r A5 ac am bryd o fwyd ym Mettws y Coed. Taith i'w chofio.

Braslun a geir yma o holl gyfoeth y dyffryn, ac anodd yw credu bod cymaint o'n henwogion wedi cael eu magu, neu yn dwyn cysylltiad â'r ardal yma. I'r rhai a fethodd y daith, gobeithir trefnu un tebyg eto, cyn bo hir. (Codwyd y wybodaeth o *Cyfres Teithiau Llenyddol Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru Rhif 8 - Dyffryn Ogwen gan J. Elwyn Hughes*).

